# Atebion i Gwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i’w hateb ar 18 Tachwedd 2010

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi’i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb

2 Cwestiynau i’r Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes

3 Cwestiynau i’r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai

3 Cwestiynau i’r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

4 Cwestiynau i’r Gweinidog dros Faterion Gwledig

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb*

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi manylion y cyfanswm a wariodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ar brynu hysbysebion ar y rhyngrwyd yng Nghymru, gan ddarparu ffigurau ar gyfer pob un o'r pedair blynedd diwethaf. (WAQ56771)

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi manylion y cyfanswm a wariodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ar brynu hysbysebion mewn cyfryngau print yng Nghymru, gan ddarparu ffigurau ar gyfer pob un o'r pedair blynedd diwethaf. (WAQ56772)

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi manylion y cyfanswm a wariodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ar brynu hysbysebion ar deledu yng Nghymru, gan ddarparu ffigurau ar gyfer pob un o'r pedair blynedd diwethaf. (WAQ56773)

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi manylion y cyfanswm a wariodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ar brynu hysbysebion ar hysbysfyrddau yng Nghymru, gan ddarparu ffigurau ar gyfer pob un o'r pedair blynedd diwethaf. (WAQ56774)

***Ni ddarparwyd cyfieithiad***

The table below provides information on the advertising spend for the categories you requested. It has not been possible to provide comparable data for more than the last two years as we added considerably to the range of work covered through the contract at this time, notably Visit Wales.

The information includes advertising on a wide range of public services which generate income for Wales, such as Visit Wales, as well as policy issues including public health and statutory notices.

| Advertising Category | 2008/09 | 2009/10 |
|---|---|---|
| Newspapers | 2,419,623.00 | 2,555,481.00 |
| Online | 846,466.15 | 544,260.00 |
| Television | 2,584,804.00 | 1,268,687.00 |
| Billboards | 286,902.00 | 251,067.00 |
| **Total** | **6,137,795.15** | **4,619,495.00** |

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes*

**Paul Davies (Preseli Sir Benfro):** A wnaiff y Gweinidog egluro pam na chaiff hanes Cymru ei ddysgu ar y cwricwlwm ysgol yng Nghymru. (WAQ56770)

***Rhoddwyd ateb ar 06 Ionawr 2011***

Caiff ei ddysgu, mae astudio hanes Cymru yn rhan greiddiol o gynnwys y Rhaglen Astudio Hanes.

Yn ystod Cyfnod Allweddol 2, mae'n ofynnol i ddisgyblion ddysgu am ystod o gyd-destunau hanesyddol. Dylai'r rhain fod yn seiliedig ar yr ardal leol o fewn cyd-destun ehangach Cymru yn bennaf, ond dylid cynnwys enghreifftiau o Brydain a gwledydd eraill hefyd.

Yn ystod Cyfnod Allweddol 3, dylid rhoi cyfleoedd i ddisgyblion archwilio a dehongli cyfnodau penodol yn hanes Cymru a Phrydain rhwng 1000 a 1914, a'r effaith y mae rhai o unigolion a digwyddiadau'r ugeinfed ganrif wedi ei chael ar ein byd heddiw. Dylent hefyd gael cyfleoedd i ddysgu am newidiadau allweddol ym mhob cyfnod a astudir, ac effaith y newidiadau hyn ar eu hardal leol, ar Gymru, ar Brydain a, lle y bo'n berthnasol, ar y byd.

Mater i ysgolion unigol yw penderfynu ar y pynciau a ddewisir yn y cyd-destunau hyn, a faint o amser a gaiff ei neilltuo i bob un. Caiff enghreifftiau anstatudol, yn deillio o Hanes Cymru, eu cynnwys hefyd fel canllaw yn y rhaglen astudio.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai*

**Jonathan Morgan (Gogledd Caerdydd):** A wnaiff y Gweinidog roi manylion: (a) faint a ddyrannwyd ar gyfer HEES ar gyfer pob blwyddyn ariannol ers ei greu; (b) faint o'r gyllideb honno a ddyrannwyd sydd wedi cael ei wario ym mhob blwyddyn ariannol ac (b) sawl cais a gafwyd ym mhob blwyddyn ariannol. (WAQ56775)

***Rhoddwyd ateb ar 30 Tachwedd 2010***

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cynyddu'r arian ar gyfer y Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref (HEES) dros y blynyddoedd diwethaf. Mae'r Cynllun wedi cynorthwyo dros 124,000 o gartrefi, sydd wedi costio dros £137 miliwn ers ei ddechrau yn 2001. Bydd nifer y Cartrefi a gaiff eu helpu yn amrywio yn unol â'r dadansoddiad o'r ceisiadau grant llawn a rhannol ym mhob blwyddyn.
Mae cyfanswm y gwariant a nifer y cartrefi sydd wedi cael help bob blwyddyn gan HEES wedi'i rannu fel a ganlyn.

| **Blwyddyn** | **Dyraniad Cychwynnol** | **Dyraniad Terfynol** | **Gwariant** | **Cartrefi** | **Ceisiadau** |
|---|---|---|---|---|---|
| 2001/02 | £8.9m | £9.2m | £5.1m | 11,021 | 9,477 |
| 2002/03 | £8.9m | £11.1m | £10.3m | 14,466 | 23,042 |
| 2003/04 | £8.9m | £13.3m | £10.6m | 12,572 | 17,113 |
| 2004/05 | £13.1m | £14.1m | £14.5m | 13,149 | 15,159 |
| 2005/06 | £14.1m | £14.1m | £13.9m | 9,834 | 9,967 |
| 2006/07 | £14.1m | £16.5m | £14.9m | 13,739 | 27,796 |
| 2007/08 | £19.6m | £19.6m | £21.6m | 18,647 | 23,808 |
| 2008/09 | £19.6m | £22.9m | £22.7m | 15,199 | 22,828 |
| 2009/10 | £19.6m | £23.7m | £23.7m | 15,952 | 25,342 |
| **Cyfanswm** | **£126.8m** | **£144.5m** | **£137.3m** | **124,579** | **174,532** |

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**: Yng ngoleuni'r Gronfa Cyffuriau Canser a sefydlwyd yn ddiweddar i ddarparu mynediad at feddyginiaethau newydd yn Lloegr, a wnaiff y Gweinidog amlinellu sut y mae'n bwriadu sicrhau bod gofal canser a darpariaeth cyffuriau yn deg ar gyfer cleifion yng Nghymru. (WAQ56769)

***Rhoddwyd ateb ar 30 Tachwedd 2010***

Caiff pob cyffur newydd a ystyrir yn glinigol ac yn gost effeithiol gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol neu Grŵp Strategaeth Feddyginiaethau Cymru Gyfan ei roi yn rheolaidd i gleifion gan GIG yng Nghymru fel mater o drefn. Byrddau Iechyd Lleol sy'n gyfrifol am gynllunio, trefnu a darparu gofal a chymorth canser o ansawdd uchel i gleifion yn unol â Safonau Canser Cenedlaethol.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig*

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Gweinidog roi manylion ei chynnydd ar yr ymrwymiad yn Cymru'n Un i ofyn am lacio'r Rheoliadau Ewropeaidd i ganiatáu claddu stoc trig. (WAQ56761)

***Rhoddwyd ateb ar 30 Tachwedd 2010***

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn arwain trafodaethau ar lefel yr UE, ar ran y DU, ar ddewis amgen i gladdu a fyddai'n caniatáu i ffermwyr storio stoc sydd wedi marw'n ddiogel ar y fferm cyn eu gwaredu drwy eu llosgi neu rendro. Caiff cytundeb ar gadw stoc marw ar y fferm ei gynnwys yn y rheoliadau diwygiedig (1069/2009/EEC), a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2009, y mae'n rhaid i Aelod Wladwriaethau eu gweithredu erbyn mis Mawrth 2011.

Law yn llaw â hyn, mae Llywodraeth Cymru yn cyd-ariannu ymchwil i system bio-leihau ar gyfer cadw stoc marw ar y fferm. Unwaith y cwblheir y gwaith hwn yn llwyddiannus, bydd y Llywodraeth yn cefnogi cynnig ffurfiol i'r Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewropeaidd (EFSA) ystyried cyfundrefn bio-leihau fel proses dderbyniol at ddibenion y rheoliadau diwygiedig ar gyfer delio â chadw stoc marw ar y fferm. Y bwriad yw cyflwyno'r cynnig i'r EFSA yn ystod gwanwyn 2011 i gyd-daro â gweithredu'r rheoliadau newydd.

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Gweinidog roi manylion ei chynnydd ar archwilio cyflwyno cynllun grant i drosi i gnydau ynni. (WAQ56762)

***Rhoddwyd ateb ar 30 Tachwedd 2010***

Cyhoeddais fy mhenderfyniad i gyflwyno Glastir ym mis Mai 2009 ac ar yr un pryd, cyhoeddais na fyddai cynllun cnydau ynni yng Nghymru.

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Gweinidog roi i) manylion y cynnydd a wnaed er mis Mehefin 2007 mewn trafodaethau ag Awdurdodau Lleol ynghylch anghenion ardaloedd gwledig anghysbell; ii) amlinellu'r broses ar gyfer canfod beth yw'r anghenion hynny, a iii) manylu beth yw'r anghenion a ganfuwyd. (WAQ56763)

***Rhoddwyd ateb ar 30 Tachwedd 2010***

Mae'r Adroddiad Ymchwil i Berfeddion Cefn Gwlad a gyhoeddwyd ar 15 Rhagfyr yn amlinellu'r cynnydd a wnaed o ran cyflawni ymrwymiad Cymru'n Un i weithio gyda'r awdurdodau lleol perthnasol i nodi anghenion penodol ardaloedd gwledig iawn yng Nghymru a mynd i'r afael â hwy. Nod yr adroddiad, a gomisiynwyd gan Arsyllfa Gwledig Cymru oedd ymchwilio i'r ffordd y mae trigolion yn profi bywyd mewn cymunedau ym mherfeddion cefn gwlad yng Nghymru gan ganolbwyntio ar y strategaethau a'r mecanweithiau a fabwysiedir mewn perthynas â mynediad at wasanaethau a'u darparu. Nododd yr adroddiad nifer o argymhellion yr wyf wedi'u trafod gyda'm cydweithwyr yn y Cabinet ac rydym wedi

cytuno mai darpariaeth band eang, trafnidiaeth yng nghefn gwlad a phrawfesur polisïau gwledig yn ehangach yw'r meysydd blaenoriaeth allweddol ar gyfer gweithredu. Mae cynnydd da eisoes wedi'i wneud o ran symud ymlaen â'r argymhellion hyn a bydd fy adran yn parhau i weithio ar y cyd ag adrannau eraill ym mhob rhan o'r Cynulliad er mwyn sicrhau y cânt eu gweithredu'n llwyddiannus.

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu cyfanswm y bil cyfreithiol sy'n ymwneud â'r rhaglen dileu TB mewn gwartheg. (WAQ56764)

***Rhoddwyd ateb ar 30 Tachwedd 2010***

£247,697.12 oedd cyfanswm y ffïoedd cyfreithiol mewn perthynas â'r Rhaglen i Ddileu TB. Mae hyn yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2008, pan lansiwyd y Rhaglen, a 31 Hydref 2010 ac yn cynnwys y costau o ganlyniad i'r Adolygiad Barnwrol a'r gwrandawiad dilynol yn y Llys Apêl yn ymwneud â Gorchymyn Dileu TB (Cymru) 2009. Mae'r costau eraill a gaiff eu cynnwys yn ymwneud â chyngor ar achosion gorfodaeth, mynd ymlaen ag erlyniadau a chyngor ar faterion yn ymwneud â chontract.

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**: At ei gilydd faint o ffermwyr yng Nghymru fyddai'n gymwys i wneud cais am Glastir yn y ffenestr ymgeisio bresennol cyn gorfod mynegi diddordeb cychwynnol. (WAQ56765)

***Rhoddwyd ateb ar 30 Tachwedd 2010***

Nid oes manylion cyfanswm y ffermwyr yng Nghymru a allai fod yn gymwys ar gyfer Glastir ar gael. Fodd bynnag, mae oddeutu 18,000 o ffermwyr yn cyflwyno Ffurflen Gais Unigol (SAF) yn flynyddol yn datgan eu tir amaethyddol ar gyfer taliadau'r Polisi Amaethyddiaeth Cyffredin yng Nghymru. O'r rhain, amcangyfrifir y gallai 17,800 o ffermwyr wneud cais am Glastir, ar yr amod eu bod yn bodloni'r meini prawf.

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** Faint o ffermwyr a oedd wedi rhoi tic i ddangos eu diddordeb cychwynnol yn Glastir yn 2010. (WAQ56766)

***Rhoddwyd ateb ar 30 Tachwedd 2010***

Mynegodd cyfanswm o 15,325 o ffermwyr ddiddordeb yng nhynllun Glastir ar Ffurflen Gais Unigol 2010.

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** Faint o ffermwyr a oedd wedi cyflwyno ceisiadau Glastir erbyn 11eg Tachwedd 2010. (WAQ56767)

***Rhoddwyd ateb ar 30 Tachwedd 2010***

Mae ceisiadau'n dal i gael eu derbyn, a byddaf yn gwneud datganiad pan fyddwn yn gwybod y nifer terfynol o geisiadau.

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael ag archfarchnadoedd a chyflenwyr er mis Mehefin 2007 ynghylch y pris sy'n cael ei dalu i ffermwyr fesul litr o laeth. (WAQ56768

***Rhoddwyd ateb ar 30 Tachwedd 2010***

Roedd pris cyfartalog llaeth yn 2009/2010 yn is na'r flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, mae DairyCo wedi nodi bod prisiau wedi codi ers mis Mai a'u bod ychydig yn uwch na'r adeg hon y llynedd. Rwyf mewn cysylltiad agos â'r diwydiant, ond ni all Llywodraeth Cynulliad Cymru ymyrryd yn uniongyrchol yn y pris a gaiff cynhyrchwyr am eu llaeth na'u contractau cyflenwi. Fodd bynnag, mae gan Lywodraeth Cynulliad Cymru nifer o fecanweithiau cymorth ar waith ar gyfer y sector Cynnyrch Llaeth.

Y Ganolfan Datblygu Llaeth sy'n cyflwyno ein Rhaglen Datblygu Cyswllt Ffermio er mwyn trosglwyddo gwybodaeth i'r diwydiant godro yng Nghymru.

Mae'r prosiect Effeithlonrwydd Cadwyn Cyflenwi Cynnyrch Llaeth (a ariennir o dan y Cynllun Datblygu Gwledig) - a gyflwynir gan Goleg Sir Gâr a DairyCo - yn darparu cymorth sy'n rhagori ar yr hyn sydd eisoes ar gael fel rhan o Cyswllt Ffermio. Mae'r prosiect hwn yn helpu cynhyrchwyr i wella eu heffeithlonrwydd, gan ei gwneud yn bosibl i'r bwlch elw rhwng y costau cynhyrchu a'r prisiau wella, a'u helpu i gystadlu mewn marchnad fyd-eang sy'n gynyddol gystadleuol.

Rhoddodd ein Rhaglen Cynnyrch Llaeth Gwerth Ychwanegol wybodaeth i gwmnïau i'w galluogi i ddeall Marchnad Manwerthu'r DU yn well; roedd y cymorth yn cynnwys canllawiau i ddatblygu cynlluniau marchnata, a chipolwg ar ddatblygu cyflwyniadau i brynwyr a hyfforddiant ar sgiliau negodi. Mae sawl cyfarfod ar lefel uwch wedi'u cynnal gyda manwerthwyr cenedlaethol er mwyn ceisio cael ymrwymiad i sicrhau y byddai llaeth a chynhyrchion llaeth eraill o Gymru ar gyfer mewn siopau yng Nghymru.

Yn galonogol, roedd traean o'r ymgeiswyr llwyddiannus ar gyfer y Cynllun Cymorth i Newydd-ddyfodiaid (YESS) yn 2010 o'r sector cynnyrch llaeth yng Nghymru ac wedi'u gwasgaru dros y pedwar rhanbarth yng Nghymru.